

Mynediad i Addysg Uwch mewn Cyfrifiadura Cymhwysol (Rhan-Amser)

Nod y cwrs Mynediad i Addysg Uwch mewn Cyfrifiadura Cymhwysol yw paratoi dysgwyr i astudio cyfrifiadura neu raglenni sy'n gysylltiedig â TG ar lefel Addysg Uwch. Cwblheir y cwrs o fewn ein hadran Celfyddydau Creadigol a Diwydiannau Digidol.

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu unedau arbenigol, sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer y sector cyfrifiadura a TG. Ei nod yw rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr ar hyn o bryd yn y sector diwydiant cyflym hwn. Mae'n cynnwys meysydd fel codio, datblygu meddalwedd a dylunio gwefannau, yn ogystal â darparu gwybodaeth TG hanfodol sydd ei hangen i ategu datblygiad pellach yn y maes hwn.

Mae'r Diploma Cyfrifiadura Cymhwysol yn darparu cyfleoedd datblygu gyrfa a llwybr dilyniant clir i addysg uwch, graddau a rhaglenni datblygu proffesiynol o fewn y meysydd Cyfrifiadura a TG.

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i gynnig manteision cyfoethog o ran cynnwys ac wedi'u hariannu cwrs llawn amser blwyddyn; fodd bynnag, fe'i cyflwynir dros gyfnod o ddwy flynedd i ddarparu'r hyblygrwydd a'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr sy'n dychwelyd i astudio pan fydd ganddynt ymrwymiaethau teuluol neu waith prysur.

Gofynion Mynediad

Gall dysgwyr sydd wedi bod allan o addysg orfodol am 3 blynedd a/neu nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau ffurfiol wneud ceisiadau.

Byddwn yn cyfwrdd â dysgwyr i benderfynu a ydynt yn addas ar gyfer y cwrs. Gofynnir i bob dysgwr yn y coleg gwblhau asesiad sgiliau ar ddechrau eu hastudiaethau, y gellir ei ddefnyddio wedyn i uwchsgilio a gwneud y gwelliannau sydd eu hangen ar gyfer mynediad i Addysg Uwch.

Dylai ymgeiswyr fod â thuedd gadarnhaol a delio'n dda â heriau. Bydd angen i ddysgwyr ar y cwrs hwn fod yn frwdfrydig, yn ddibynadwy ac yn aeddfed, ac mae tystiolaeth o brofiad bywyd a diddordeb brwd mewn cyfrifiadura yn ddimunol.

Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfle i ddysgwyr symud ymlaen i raddau sylfaen mewn TG neu feysydd Cyfrifiadura, BSc mewn Cyfrifiadura, BSc mewn Rheolaeth TG, prentisiaethau gradd mewn meysydd cysylltiedig a chyflogaeth

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





yn y sector cyfrifiadura. Gall cyfleoedd astudio a chyflogaeth pellach gynnwys dylunio graffig, datblygu gwe, codio, cymorth technegol a datblygu meddalwedd.

Modiwlau'r cwrs

- Dadansoddi a Dylunio Systemau
- Mathemateg ar gyfer Cyfrifiadura
- Rhwydweithio a Chronfeydd Data
- Rhaglennu
- Dylunio Gwe a Graffig
- Prosiect Ymchwiliol

Aseiad

Bydd addysgu a dysgu yn digwydd trwy broses o ddarlithoedd, tiwtorialau, trafodaethau, arddangosiadau, dysgu cyfunol a gwaith grwp. Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu trwy adroddiadau ysgrifenedig, portffolios ymarferol, ac aseidiadau sy'n seiliedig ar arholiadau.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

2 Flynedd

FFIOEDD

25/26 fees: £150

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chweraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre

